# Emmaus

Croeso i Emmaus UK

Croeso i Emmaus UK

www.emmaus.org.uk

Google

emmaus

Yn ôl yr ystadegau swyddogol sydd ar gael, mae rhai miloedd o bobl yn cysgu ar y stryd bob nos ym Mhrydain. Maen nhw’n ddigartref am nifer o resymau. Mae rhai’n bobl ifanc sydd wedi rhedeg i ffwrdd oherwydd eu bod nhw’n methu dod ymlaen gyda’u teuluoedd. Mae rhai’n teimlo eu bod nhw ddim yn perthyn, efallai oherwydd bod rhiant wedi ail-briodi. Mae pobl eraill yn ddigartref gan eu bod wedi colli eu gwaith a’u cartrefi, oherwydd bod priodas wedi chwalu neu am eu bod nhw’n gaeth i alcohol neu gyffuriau.

Mae rhai elusennau’n helpu’r bobl yma drwy roi llety dros dro iddyn nhw, lle i gysgu dros nos efallai. Mae elusennau eraill yn paratoi pryd o fwyd poeth ac mae elusen Shelter yn ceisio rhoi cartref mwy sefydlog i bobl ddigartref.

Mae un elusen, fodd bynnag, yn gwneud mwy na chynnig cartref neu gymorth dros dro. Mae’n wir bod yr elusen yma’n rhoi cartref iddyn nhw, ond yn ogystal, mae’n rhoi llawer mwy iddyn nhw. Mae’n cynnig gwaith, a fydd yn eu helpu nhw i ennill sgiliau pwysig, ac a fydd, felly, yn eu helpu i symud ymlaen i fyd gwaith. Mae’n cynnig cyfeillgarwch a theulu iddyn nhw hefyd, fel eu bod yn teimlo bod gwerth i’w bywyd unwaith eto. Mewn geiriau eraill, mae’n rhoi gobaith iddyn nhw.

Emmaus yw enw’r elusen. Mae’r enw’n dod o’r Beibl - Emaus (Emmaus yn Saesneg) oedd enw’r lle lle gwelodd dau o’r disgyblion yr Iesu ar ôl iddo atgyfodi. Mae’r enw’n cyfleu gobaith, felly. Ond er yr enw, ac er iddi gael ei sefydlu gan abad, nid elusen grefyddol mohoni. Erbyn hyn, mae’n elusen ryngwladol gyda changhennau mewn 36 o wledydd, gan gynnwys Prydain.

Sut mae’n gweithio? Y geiriau pwysig i’r elusen yma yw “cymuned” a “chyfaill”. Mae’r elusen yn sefydlu cymuned ac mae’n croesawu pobl ddigartref i ddod i fyw yn y gymuned fel “cyfeillion”. Mae’r gymuned fel “teulu” agos ac felly nid oes rhestr hir o reolau, er bod disgwyl i unrhyw un sy’n gaeth i gyffuriau neu alcohol newid ei ffordd o fyw. Er bod pawb yn cael eu hystafell eu hunain, mae disgwyl iddyn nhw fwyta gyda’i gilydd a gweithio gyda’i gilydd. Mae digwyddiadau cymdeithasol yn cael eu cynnal, ond does dim rhaid i unrhyw un eu mynychu. Y prif beth yw bod y bobl yn teimlo’u bod yn perthyn ac mae hyn yn gwneud iddyn nhw deimlo rhywfaint o hunan-barch. Maen nhw’n rhan o gymuned glós - sydd gymaint yn well na bod yn berson digartref, unig ar y stryd.

Pan fydd pobl yn ymuno â’r gymuned hon, rhaid iddyn nhw ddechrau gweithio er mwyn ennill ychydig o arian a chynnal y

emmaus

gymuned. Maen nhw'n gwneud hyn drwy drwsio dodrefn mae pobl yn eu rhoi iddyn nhw. Yna, maen nhw'n gwerthu'r dodrefn yn ail-law. Mae'r gwaith hwn yn rhoi sgiliau pwysig iddyn nhw - sgiliau ymarferol wrth iddyn nhw drwsio'r darnau ond hefyd sgiliau fel gweithio gydag eraill, datrys problemau ac ati. Bydd y rhain i gyd yn werthfawr pan fydd y bobl yn chwilio am waith y tu allan i'r gymuned oherwydd bydd cyflogwyr y dyfodol yn siŵr o sylwi arnyn nhw mewn llythyrau cais ac ati.

..........................................

Cafodd yr elusen ei sefydlu yn 1949 gan Abbé Pierre ym Mharis. Roedd e'n ddyn arbennig iawn gan ei fod, am flynyddoedd, yn ymladd dros hawliau pobl mewn angen. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, bu'n helpu Iddewon i ddianc o Ffrainc a bu'n gweithio gyda'r Résistance.

Yn 1949, daeth dyn o'r enw Georges i'w gartref. Roedd e wedi cyrraedd pen ei dennyn ac wedi ceisio'i ladd ei hun. Roedd e newydd gael ei ryddhau o'r carchar ond gan fod ei deulu wedi ei wrthod, doedd ganddo ddim cartref i fynd iddo. Cynigiodd Abbé Pierre le iddo fyw ond yn ogystal gofynnodd iddo ei helpu wrth iddo geisio cynorthwyo pobl anghenus y ddinas. Cytunodd Georges. Ef oedd "cyfaill" cyntaf Emmaus.

Bu'n helpu'r abad i greu cartrefi dros dro ar gyfer pobl ddigartref yn y ddinas - yng ngardd yr abad ei hun i ddechrau, yna mewn lleoedd eraill. Roedd gwneud y gwaith hwn yn bwysig iddo oherwydd, yn ogystal â chael to uwch ei ben, roedd pwrpas i'w fywyd.

Yn 1954 y datblygodd Emmaus fwyaf, fodd bynnag. Roedd hi'n aeaf ofnadwy o oer ac roedd tua 5 miliwn o bobl heb gartref yn Ffrainc. Ym mis Ionawr y flwyddyn honno, rhewodd baban bach oedd yn byw ar y stryd gyda'i rieni i farwolaeth. Yna, rai dyddiau'n ddiweddarach, bu farw hen ddynes oedd heb gartref. Roedd yr abad yn gandryll a dechreuodd brotestio'n gryf yn erbyn cymdeithas a oedd yn caniatáu i'r fath beth ddigwydd. Ysgrifennodd lythyr i'r wasg. Siaradodd ar y radio. Pan glywodd pobl ei neges, dechreuon nhw anfon arian i helpu'r bobl ddigartref a chodwyd miliynau o ffrancs (arian Ffrainc cyn yr Ewro). Dechreuodd Abbé Pierre agor cymunedau Emmaus ar hyd y wlad wedyn.

Gweledigaeth Abbé Pierre sy'n sail i gymunedau Emmaus heddiw, sef "Helpwch y rhai sy'n dioddef fwyaf yn gyntaf."